

CYNGOR CYMUNED LLANWNTA

COFNODION – CYFARFOD MAWRTH 2018

DYDDIAD	Nos Fercher, 21 Mawrth 2018
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Ysgol RHOSTRYFAN

1.	<p>Croeso Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Bryn Hughes, Peter Roberts, Elin Evans, Jason Hunt, Gwilym LI Williams, Gwilym V Thomas, Tom Ellis.</p>
2.	<p>Ymddiheuriadau Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys Owen a Michelle Williams.</p>
3.	<p>Datgan Buddiant Dim i'w nodi.</p>
4.	<p>Cadarnhau cofnodion 21 Chwefror 2018 a materion yn codi Derbyniwyd fel cofnod cywir, cynigwyd gan EE a gyda GVT yn eilio.</p>
5.	<p>Materion Misol:</p> <p>a) Sedd wag Rhosgadfan Nododd y Clerc ei bod yn disgwyl caniatâd gan Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd ar gyfer llenwi'r swydd. Yna bydd yn rhoi rhybudd Cyfethol i fyny.</p> <p>b) Meddygfa Rhostryfan Cafwyd diweddariad gan BH. Cyfeiriodd at Adroddiad gan y CHC gan Carol Williams. Nodwyd ei fod yn adroddiad cytbwys, agored a gonest a ddim yn rhoi barn un ffordd na'r llall. BH wedi cynrychioli Cyfeillion y Pentref ynghylch cau'r Feddygfa. BH wedi canolbwyntio ar gasgliadau'r adroddiad ac wedi trio ymateb i bob rhan ohono. Yn gryno iawn, yr un elfen bwysig ym marn BH ydy'r diffyg ymgynghori, dim digon wedi digwydd. Pan mae meddygfa yn penderfynu cau, rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb. Mae'r Feddygfa yn dweud fod yr asesiad wedi digwydd, ond dim copi ar gael. CHC heb weld copi na wedi cael cynnig mewnbwn annibynnol i'r asesiad. Pobl oedrannus sydd am ddiodesf fwyaf o gau'r Feddygfa. Os bydd y penderfyniad i gau'r Feddygfa yn cael ei dderbyn, bydd BH yn gofyn am y pecyn tystiolaeth ac yna cyflwyno cwyn i'r Ombwdsman.</p> <p>c) Trydan Llanwnda Dim byd arwyddocaol i'w adrodd arno.</p> <p>d) Bysiau Dal neb yn defnyddio bysiau Rhos Isaf. AMJ yn trafod gyda Dafydd Williams, Pennaeth yr Adran, mae nhw £500k dros y gyllideb. AMJ yn ceisio i gael 2 fys, fel bod bws ar wahân i blant ysgol. NE wedi cael cwynion, plant ysgol yn hwyr bob bore ac yn colli cofrestriad a 2 wedi methu allan ar gyfer i gofrestru ar gyfer trip gan ei bod yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol. Tydi'r plant ddim yn ysgol tan 9:20am, bws ddim yn mynd drwy Rhos Isaf tan 8:45am. Yr unig ateb ydy cael 2 fys. EE hefyd am godi gyda Llywodraethwyr yr Ysgol. Clerc i yrru at Dafydd Williams yn cefnogi'r cais a nodi fod cwynion yn cyrraedd y Cyngor Cymuned.</p> <p>e) Park & Ride Llanwnda Clerc wedi derbyn ymateb e-bost gan Meirion Williams, Uwch Reolwr Cyngor Gwynedd. Tydy'r syniad ddim yn mynd yn ei flaen rŵan. Nodwyd pryder aelodau o ran faint oedd hyn wedi ei gostio gan fod cynlluniau manwl wedi eu paratoi.</p> <p>f) Arolwg o gerrig beddi'r fynwent Clerc yn cadarnhau y bydd yn digwydd ym mis Ebrill.</p>

<p>g) Binau Halen Clerc yn nodi iddi gael nifer fawr o gwynion gan drigolion Rhosgadfan yn ystod y tywydd garw gan fod y binau halen yn wag ar ffyrdd yn beryglus. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Steffan Jones, Uwch Reolwr Cyngor Gwynedd i nodi anfodlonrwydd fod cwynion yn cael eu cyfeirio at y Clerc. Penderfyniad Cyngor Cymuned Llanwnda oedd peidio â chymryd y cyfrifoldeb ymlaen gan Gyngor Gwynedd, nhw felly dylai ymateb i'w cwynion.</p> <p>h) Defibrillator Rhostryfan Clerc i gwblhau ffurflen adopt a kiosk BT a gwneud y trefniadau gyda Kirsty.</p> <p>i) EE – Ffordd Osgoi Bontnewydd, beth yw'r diweddaraf? Angen pwysu ar y Gwleidyddion i symud ar hwn. Angen llythyru Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddariad.</p> <p>j) EE - Maes parcio Dinas, Fan pizza yno ar nos iau a nos Wener, oes ganddynt drwydded? Clerc wedi gwneud ymholiadau a derbyn cadarnhad eu bod yna yn gyfreithlon gan fod ganddynt drwydded gwerthu bwyd a gyda threfniant preifat gyda pherchennog y tir.</p> <p>k) GVT – Golau ffordd ger Bodfan, Rhosgadfan byth yn gweithio Nodwyd mai'r arwydd 30 sydd ddim yn gweithio. Clerc wedi adrodd wrth Colin Worth ac yn aros am ymateb.</p> <p>l) GVT - Tyllau yn lôn Pen y Ffridd, Rhosgadfan yn ddrwg. Clerc wedi adrodd wrth Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.</p> <p>m) GVT – Beth yw'r diweddaraf gyda'r cais cynllunio ar gyfer y tai newydd yn Dinas? Dim diweddariad a dim son pellach amdano.</p> <p>n) GVT – oes modd sicrhau fod cofnodion yn Lleu? Clerc yn cadarnhau y bydd cofnodion Chwefror yn Lleu Ebrill. Angen i ddarn ar y grantiau dyfarnwyd i fynd i'r Herald hefyd.</p> <p>o) BH – Llwybr ger yr hen stesion, Rhostryfan dwr yn casglu yno Wedi tynnu nifer o luniau i weld lle mae'r dŵr yn casglu. BH i barhau i fonitro'r sefyllfa.</p> <p>p) MW – Rhif 1 Gwelfor, Rhosgadfan, cwyn fod y coed yn fawr a llawer o ddrain yno. Clerc wedi adrodd ar y broblem wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd.</p> <p>q) GVT - Gwelfor, Rhosgadfan – codwyd yr angen am 'through road', beth yw'r diweddaraf? Clerc wedi gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Amhosib troi rownd yno, peryg os angen ambiwlans etc...Angen mynd ar ôl CCG.</p> <p>r) NE - Dwr ar y lon tu allan i Dolellog, wrth rewi peryglus, dwr yn dod allan o focs GPO (reit ar y troed.) Clerc wedi adrodd wrth Adran priffyrdd cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb.</p> <p>s) MW - Oes diweddariad am sefyllfa dwr yn rhedeg i'r lon o Dŷ Hen, Rhosgadfan? Clerc wedi derbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi ei bod yn fodlon gyda'r</p>
--

	gwaith y mae'r perchennog wedi ei wneud i geisio altro'r sefyllfa ond y byddent yn parhau i fonitro.																																		
6.	<p>Derbyn Adroddiadau</p> <p>a) Wal tir newydd y Fynwent Dal i aros am gyfarfod safle gyda Pherchennog y chwarel i drafod y cerrig am ddim ar gyfer y gwaith.</p> <p>b) Prisiau gwaith ar lwybr Bryngwyn a meinciau cysodfannau Dinas a Llanwnda. Nodwyd fod gwaith brys angen ei wneud ar lwybr Bryngwyn gan fod rail heibio Tyddyn Gwydd wedi pydru a thorri a gallai rhywun ddisgyn. Wyn Williams wedi nodi y byddai'n costio oddeutu £1,000 i wneud y gwaith gan fod angen cael peiriant yno. Hefyd rhoddwyd pris o £240 i beintio'r ddwy fainc yng nghysodfannau Dinas a Llanwnda. Cytunwyd i Wyn wneud y gwaith ar gyfer y 2 beth ond gan ofyn iddo roi pystiau metel ar y llwybr yn hytrach na rhai pren.</p> <p>c) Ymddiswyddiad Clerc a chais i hysbysebu'r swydd Cyflwynodd y Clerc ei ymddiswyddiad o'r rôl ar ôl cyfnod o 3 blynedd. Diolchwyd l'r Clerc am ei gwaith dros y blynyddoedd diwethaf a nododd y Cadeirydd ei bod yn deall ei rhesymau dros adael y swydd. Derbyniwyd yr ymddiswyddiad. Cytunwyd i hysbysebu'r swydd cyn gynted â phosib drwy wefan Cyngor Gwynedd a Facebook. Gofynnir am lythyr blaen a CV a dyddiad cau o 13 Ebrill. Yna bydd rhestr fer yn cael ei thynnu yn cyfarfod 18 Ebrill a phenderfyniad ynglŷn â phwy fydd yn cyfweld. Hefyd bydd angen trafod cwestiynau cyfweliad.</p>																																		
7.	Is-bwyllgorau																																		
8.	<p>Materion Ariannol</p> <p>a) Adroddiad Ariannol</p> <p><u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 21 Mawrth 2018</u></p> <p><u>1. Cyfrif Cadw</u></p> <table> <tr> <td>Balans a ddygwyd ymlaen:</td> <td style="text-align: right;">21,813.21</td> </tr> <tr> <td>+ Llog</td> <td style="text-align: right;"><u>4.00</u></td> </tr> <tr> <td>Balans ar derfyn busnes 21 Mawrth 2018</td> <td style="text-align: right;">21,817.22</td> </tr> </table> <p><u>2. Cyfrif Siec</u></p> <table> <tr> <td>Balans a ddygwyd ymlaen:</td> <td style="text-align: right;">5,147.72</td> </tr> <tr> <td>- Cyllid y Wlad Chwef</td> <td style="text-align: right;">104.80</td> </tr> <tr> <td>- 101056 Caryl E Lewis Cyflog Chwef</td> <td style="text-align: right;">461.05</td> </tr> <tr> <td>- 101060 LLeu</td> <td style="text-align: right;">50.00</td> </tr> <tr> <td>- 101057 Lleu</td> <td style="text-align: right;">30.00</td> </tr> <tr> <td>- 101065 Dawns i Bawb</td> <td style="text-align: right;">50.00</td> </tr> <tr> <td>- 101066 Defib Rhostryfan</td> <td style="text-align: right;">150.00</td> </tr> <tr> <td>- 101062 Canolfan Bro Llanwnda</td> <td style="text-align: right;">250.00</td> </tr> <tr> <td>- 101053 Sion Owen</td> <td style="text-align: right;">220.00</td> </tr> <tr> <td>- 101055 Zurich</td> <td style="text-align: right;">1493.21</td> </tr> <tr> <td>- 101059 Neuadd Rhostryfan</td> <td style="text-align: right;">250.00</td> </tr> <tr> <td>- 101068 Ysgol Rhostryfan a Rhosgadfan</td> <td style="text-align: right;"><u>1,000.00</u></td> </tr> <tr> <td>Balans ar derfyn busnes 21 Mawrth 2018:</td> <td style="text-align: right;">1,088.66</td> </tr> </table> <p><u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 21 Mawrth 2018:</u></p> <table> <tr> <td>Cyflog Clerc Mawrth</td> <td style="text-align: right;">461.05</td> </tr> </table>	Balans a ddygwyd ymlaen:	21,813.21	+ Llog	<u>4.00</u>	Balans ar derfyn busnes 21 Mawrth 2018	21,817.22	Balans a ddygwyd ymlaen:	5,147.72	- Cyllid y Wlad Chwef	104.80	- 101056 Caryl E Lewis Cyflog Chwef	461.05	- 101060 LLeu	50.00	- 101057 Lleu	30.00	- 101065 Dawns i Bawb	50.00	- 101066 Defib Rhostryfan	150.00	- 101062 Canolfan Bro Llanwnda	250.00	- 101053 Sion Owen	220.00	- 101055 Zurich	1493.21	- 101059 Neuadd Rhostryfan	250.00	- 101068 Ysgol Rhostryfan a Rhosgadfan	<u>1,000.00</u>	Balans ar derfyn busnes 21 Mawrth 2018:	1,088.66	Cyflog Clerc Mawrth	461.05
Balans a ddygwyd ymlaen:	21,813.21																																		
+ Llog	<u>4.00</u>																																		
Balans ar derfyn busnes 21 Mawrth 2018	21,817.22																																		
Balans a ddygwyd ymlaen:	5,147.72																																		
- Cyllid y Wlad Chwef	104.80																																		
- 101056 Caryl E Lewis Cyflog Chwef	461.05																																		
- 101060 LLeu	50.00																																		
- 101057 Lleu	30.00																																		
- 101065 Dawns i Bawb	50.00																																		
- 101066 Defib Rhostryfan	150.00																																		
- 101062 Canolfan Bro Llanwnda	250.00																																		
- 101053 Sion Owen	220.00																																		
- 101055 Zurich	1493.21																																		
- 101059 Neuadd Rhostryfan	250.00																																		
- 101068 Ysgol Rhostryfan a Rhosgadfan	<u>1,000.00</u>																																		
Balans ar derfyn busnes 21 Mawrth 2018:	1,088.66																																		
Cyflog Clerc Mawrth	461.05																																		

	<p>Cyllid y Wlad Mawrth 104.80 Wyn Williams 464.00 Cyfanswm 1,029.85</p> <p>b) Tendrau llwybrau, mynwent, cysodfannau, cae chwarae Rhostryfan Agorwyd y tendrau a chytunwyd ar gynnig y gwaith i'r canlynol:</p> <p>Cytundeb torri gwair llwybrau – Wyn Williams Cytundeb glanhau cysodfannau - Wyn Williams Cytundeb clirio sbwriel parc chwarae Rhostryfan – Wyn Williams Cytundeb torri gwair mynwent Rhos Isaf - Mark Balaam, Cwmni Gwalch Cyf</p> <p>Er nad oedd pris Gwalch Cyf y rhataf ar gyfer y fynwent, cytunwyd ar roi'r cytundeb iddo oherwydd ansawdd uchel ei waith blaenorol ar y fynwent.</p> <p>c) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol Cytunwyd y byddai'r is-grŵp cyllid yn cyfarfod mis Mai i fynd drwy'r cyfrifon ddiwedd blwyddyn gyda'r Clerc. Nodwyd y bydd angen enwebu aelod newydd ar y Grŵp yn lle Elwyn Jones. Enwebwyd Bryn Hughes a bydd Jason Hunt a Michelle Williams yn parhau fel aelodau.</p>
9.	<p>Materion Cynllunio <u>C18/0177/24/LL</u> – Estyniad i Gwenallt, Dinas, Caernarfon, Gwynedd, LL547YN Angen nodi i ni godi pryderon tro diwethaf am y parcio.</p>
10.	<p>Gohebiaeth a chylchgronau Dim i'w nodi</p>
11.	<p>Materion Cyfarfod Nesaf</p> <p>GLLW - Dwr yn dod lawr o Gae'r Odyn, Rhostryfan, ac yn cario silt i lawr i gae coch, anodd i geir basio a throï yna. GVT - Ceir yn cael eu parcio mewn mannau anaddas yn Dreflan, criw ailgylchu wedi methu mynd a biniau oddi yno heddiw achos methu pasio'r ceir. Hefyd mae faniau yn parcio yno ar y pafin a blocio pobl sydd angen pasio gyda phramiau. GLLW – Bag wast melyn, rhwng Llwyn a Wern Olau (ar hyn y stretch o Wern Olau, wedi cael ei daflu ar wal.) EE - Mae'r Cyngor wedi torri gwrychoedd yn ddiweddar ar hyd lôn Ffrwd cae Du ond mae sbwriel yn ofnadwy ar hyd yr ochrau rŵan. NE - Rhosgadfan - pont wrth tyddyn hen, peryglus i weld. Pwyllgor cae chwarae sydd yn gyfrifol? Angen ei drafod yn cyfarfod nesaf. TE - Rhwng Wernlas ddu ar bont, dwr yn hel yn y pant (gwaelod y bont ar ochr arall)</p> <p>Dyddiad: 18 Ebrill 2018 Lleoliad: Ysgol RHOSGADFAN</p>